

# CLWB MYNYDDA CYMRU

**Cofnodion Pwyllgor 7:30 nos Wener, 18 Medi 2009.**

**1. Yn bresennol: Morfudd Thomas, Maldwyn Roberts, Gareth Roberts, Arwel Roberts, Rhys Dafis, Anita Daimond a Llew ap Gwent.**

Ymddiheuriadau: John Arthur, Clive James, Iolo ap Gwynn ac Alwen Williams.

**2. Penodwyd MP yn Ysgrifennydd Cofnodion ar gyfer y Cyfarfod (yma'n unig!).**

**3. Trafodwyd llwyddiant stondin Mynydda yn Eisteddfod Genedlaethol Y Bala:**

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu cymorth.  
Neb o'r Pwyllgor yn ymwybodol fod na arian raffl i ddod.  
Holwyd faint o werthiant oedd ar gyfrol Mynydda.  
Pawb yn awyddus i gael stondin yn flynyddol – RhD am edrych i mewn i'r posibilrwydd o gael stondin yn Eisteddfod Blaenau Gwent ac am adrodd yn ôl at y pwyllgor nesaf.

**4. Diwrnod blasu 10 Hydref:**

Trafodwyd hwn yn fanwl.  
Roedd y mater yswiriant yn poeni ambell un a phenderfynwyd cael ffurflen i'r arweinwyr ddefnyddio ar y diwrnod i gasglu enwau pobl sydd ddim yn aelodau. Posibilrwydd o gynnwys manylion yr yswiriant ar y ffurflen?  
MP am gysylltu hefo CJ i drafod y ffurflen, a MP i argraffu a gyrru copiau i'r arweinyddion mewn da bryd a hefyd i gynnwys y ffurflen ar y wefan.  
Hefyd argraffu mwy o'r cardiau bach i'w dosbarthu ar y diwrnod.  
Dosbarthwyd y ffileiars a'r posteri ymysg aelodau'r pwyllgor i'w defnyddio ar y diwrnod.

**5. CCB:**

Nos Sadwrn, 14 Tachwedd, 18:00 Plas y Brenin  
Pawb yn fodlon aros ar y Pwyllgor ond LlapG – yn awyddus i sefyll lawr i roi cyfle i aelodau ieuengachddod ar y Pwyllgor.  
Swydd y Trysorydd – GR wedi meddwl ymgymeryd a'r swydd ond amgylchiadau ddim yn caniatáu.  
MR am holi Alan Hughes (Trysorydd cynta'r clwb!).  
Os na, trafod hefo JAJ eto.

Enwebiadau ar gyfer y Pwyllgor: Alan Hughes, Guto Evans, Iolyn Jones, Sian Griffiths (Penmachno), Gwilym Jackson, Nia Williams.

MP am holi Jeremy Trumper am bwnc ei sgwrs.  
Angen pris y bwyd ar gyfer y noson – CJ.

**6. Materion BMC, MLTB a Phartneriaeth Awyr Agored:**

Ni chafwyd enw ar gyfer mynychu'r Seminar clybiau ym Manceinion ar y 28 o Dachwedd – GR am feddwl.

MT am drafod problem llwybr ar lan Llyn Cwellyn hefo Bryn Williams, MLTB. Adroddodd AD ac AR ar yr offer dringo sydd wedi ei brynu ac yn awyddus i brynu esgidiau dringo. AR am holi'r Beacon a siopau am feintiau a phrisiau. Adroddodd AD ei bod yn y broses o ddarparu ffolder a llyfryn sy'n dangos holl ger dringo'r Clwb a'r pwysigrwydd o gadw cofnod manwl o'u defnydd.

**7. Cofrestr o offer y Clwb:**

Angen cael rhestr o holl offer arall y Clwb. MP hefo rhai llyfrau. Mae na fagiâu bifi a manion eraill. Gofyn i bawb ddod a rhestr i'r Cyfarfod Blynyddol. Yna cynnwys y rhestr ar y wefan.

**8. Llamffest, 5 – 7 Mawrth 2010. Ffilm “Dringo’r Dom” a thrafodaeth?**

LlapG am holi'r Archif Ffilmiau.

MP am holi Alun Hughes i weld os ydi o yn bwriadu dangos ffilmiau.

**9. Dyddiadau a lleoliadau’r pwyllgorau nesaf (2010):**

10 Bwriedir newid dyddiad Pwyllgor mis Ionawr i ddilyn taith nos Sadwrn, Ionawr fed yn Rhyd Ddu (gweler isod).

Pwyllgor mis Mai yn dilyn taith y Canolbarth. MP am holi Iolo neu Alan am leoliad.

Pwyllgor mis Medi i'w benderfynnu.

**10. Adroddiad ariannol: Iach!**

**11. Gwefan y Clwb (I ap G):** IapG ddim yn medru dod i'r CCB.

**12. Canolfan Rhyd Ddu (MT):**

MT am holi Ken Jones, Canolfan Rhyd Ddu am y posibilrwydd o logi'r ganolfan am benwythnos yn nechrau Ionawr 2010 (10-11eg).

Taith ar y Sadwrn; Pwyllgor wedi'r daith; Cyfeiriannu/GPS gyda'r nos; taith ar y Sul. Ymarfer rhew ac eira os ydi'r tywydd yn caniatáu.

**13. Tarian y Clwb:** Penderfynnwyd fod trefnwyr teithiau unigol tramor yn gyfrifol am ddarparu rhai.

**14. Materion sy'n codi o gofnodion blaenorol (gweler y Wefan):** Dim.

**15. Teithiau canol Tachwedd tan diwedd Chwefror:** Cafwyd awgrymiadau.

Soniwyd hefyd am amseroedd cychwyn teithio a phenderfynwyd cadw'r amser arferol ar gyfer y mwyafrif o deithiau.

**Dringo:** AD ac AR i yrru manylion at MP.

**Dydd Mercher:** MP yn trefnu.

**De Cymru:** RhD i yrru manylion at MP.

**Yr Alban hanner tymor Chwefror:** Cabanau yn Aviemore wedi'u llogi (MP).

**16. Teithiau allweddol ar ôl mis Chwefror:**

**Morocco Pasg 2010 (RhD):** Criw o 16 ar hyn o bryd.

**Llydaw haf 2010? (MT):** MP am gynnwys manylion yn y rhaglen.

**Haute Route (GR):** MP am gynnwys manylion yn y rhaglen.

**17. UFA?:** Na